**LC272**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001

### Y cefndir

Mae adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru (‘awdurdod lleol’) lunio cynigion ar gyfer rhoi trefniadau gweithrediaeth, fel y’u diffinnir yn y Ddeddf, ar waith.

Er hynny, mae adran 31 o’r Ddeddf yn darparu eithriad i’r rhwymedigaeth hon o dan amgylchiadau penodol.

Mae adran 25(8) (fel y’i darllenir gydag adran 106) yn rhoi pŵer i’r Cynulliad bennu, drwy Orchymyn, erbyn pa ddyddiad y mae’n rhaid i’r awdurdodau lleol gydymffurfio ag adran 25.

Mae’r Gorchymyn presennol yn pennu mai 31 Ionawr 2002 yw’r dyddiad cydymffurfio ar gyfer yr holl awdurdodau lleol y mae adran 31 yn gymwys iddynt.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

Ni all adran 31(2) fod yn gymwys yng Nghymru.  Gan hynny, dim ond pan gaiff rheoliadau eu gwneud o dan is-adran (1)(b) y bydd adran 31 yn gymwys.

Cadarnhawyd bod rheoliadau o’r fath i gael eu gwneud gan ddod i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

Yn yr un modd, er mwyn i adran 31 weithredu yng nghyd-destun y Gorchymyn presennol, bydd angen i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 32.  Cadarnhawyd bod rheoliadau o’r fath i gael eu gwneud hefyd, gan ddod i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

5 Mehefin 2001